**CYMDEITHAS**
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**COMMUNITY COUNCIL**

**08.01.26**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *Hwb LlanNi*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** EY (Cadeirydd) RJ; AR; TAJ; DAW; GW; IW; RY; JOJ; EO<br>**Ymddiheuriadau:** DP;LLMH; JAJ<br>**Mynychu:** Cyng Ken Hughes; SWR<br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau uchod.<br>Estynodd y Cadeirydd gydymdeimlad diffuant a'r Cyng J A Jukes a'r teulu ar eu profedigaeth ddiweddar o golli priod Mam a Nain annwyl, Mrs Eileen Jukes. Nododd y Clerc ei bod wedi anfon gair o gydymdeimlad at y teulu ar ran CC Llan eisoes.<br>Llongyfarchwyd Cyng Ann Roberts ar enedigaeth ei wyr bach. Dymuniadau gorau i'r teulu bach. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd RJ ddiddordeb yn Eitem 8 Materion Safleoedd – Lawnt Fowlio. |
| **3** | **Cofnodion 06.11.25**<br>**Cyf**lwynwyd a derbyniwyd cofnodion 06.11.25 fel rhai cywir (TAJ/EY)<br><br>**Nodiadau Is Bwyllgor Cyllid 4.12.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd y nodiadau (DAW/TAJ) Trafodwyd yr argymhellion a chytunwyd i'w cefnogi yn unfrydol. O ran gosod prasept cynnigiodd DAW codi'r prasept 10% yn ol yr arfer er rhai blynyddoedd ac fe eilwyd gan EO. Cytunwyd yn unfrydol er mwyn sicrhau cefnogi'r cynnydd mewn costau rhedeg adnoddau'r Cyngor Cymdeithas. Nodwyd y pwysigrwydd i'r aelodau gyfeirio at y ffeithiau uchod pe baent yn cael |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | unrhyw gwestiynau/heriau gan y gymdogaeth am codi'r praespet. TAJ a'r Clerc i gwblhau'r gwaith papur o fewn terfyn amser Adran Cyllid CSYM.<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>**Materion Priffyrdd –** dim diweddariad ar y Cynllun Gweithredu. Clerc i gysylltu'n uniongyrchol gydag Alun Roberts i drafod problem ffordd trwy Carmel.<br><br>**Treth Busnes Uned 5/6 –** Cyng Jackie Lewis yn gwneud ymholiadau a y bil treth uchel. Adroddiad pellach i gyfarfod mis Chwefror.<br><br>**Bin sbwriel CPD Llan –** manylion cyswllt i law gan RY – Clerc i weithredu 'mhellach.<br><br>**Bin bagiau baw ci** – DAW yn adrodd fod y sefyllfa wedi gwella trwy roi llai ym mhob bocs. Clerc i archebu mwy.<br><br>**Llifolau Cae Astro –** adroddodd y Clerc am lwyddiant cais grant trwy Mon Actif. Maent wedi sicrhau £32K ar gyfer diweddaru'r cae. Clerc i gefnogi Mon Actif gyda unrhyw weithredu pellach.<br><br>**Cloc y Pentref –** neges gan Eglwys yng Nghymru yn nodi eu bod yn disgwyl adorddiad strwythur y Lych Gate ac nid oes hawl i neb weithio arno gan ei fod yn adeilad Gradd II.<br>Cytuwnyd i<br>• TAJ geisio holi ymhellach am hanes gwreiddiol y Cloc<br>• GW ymchwilio i gamau pellach i ddogelu'r Cloc rhag tywydd garw<br>• Clerc i holi pam fod giat ar agor yn barhaol.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 08.01.26 |
| **4** | **Materion trwy'r Gadair**<br><br>**Cyflwr Ffordd Carmel** – trafodwyd uchod.<br><br>**Swydd Clerc –** trafodwyd lythyr gan y Clerc yn dymuno ymddeol o'r swydd. Mynegwyd peth gofid o'i dderbyn ond diolchwyd i'r Clerc am bron i 20 mlynedd o wasanaeth clodwiw.<br><br>Cytunwyd i hysbysebu'r swydd gyda oriau a chyflog dan adolygiad a dyddiad cau -20 Chwefror.<br><br>**Ebost Declan Pritchard –** cais i enwebu enwau o CC Llan i gynrychioli ar grwp cyswllt anffurfiol. Clerc i ateb yr ebost yn ail-adrodd mai cynrychioli'r gymuned gyfan yw gorchwylCC Llan ac i bwyso am gyfarfod cyhoeddus fyddai'n i bawb yn hytrach na chynrichiolaeth ar grwp cyswllt llai. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Gohebiaeth Palas Buckingham** – cytunwyd i enwebu Cyng Jukes – Clerc i weithredu. |
| 5 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 6/11/25**<br><br>• Cyflog Clerc – Tachwedd a Rhagfyr = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM X 2<br>• Nwy Prydain Trydan Clwb Bowlio £21.93 £24.65 £ 20.86<br>• Nwy Prydain trydan Uned 1 £14.65 £15.59 £12.76<br>• Nwy Prydain trydan Goeden Dolig £14.18 £16.06 £15.74<br>• Nwy Prydain trydan Uned 2 £7.09 £19.30<br>• Nwy Prydain trydan CPD £32.74 £126.21 £111.45<br>• Smiths of Derby – cwblhau gosod y Cloc £1525<br>• CSYM ??/ £428.25<br>• MSI Alarms – Caffi Stesion £124.80<br>• JRB Enterprises – bagiau dal baw ci £77.88<br>• Gwyn Anwyl – utgorn Sul y Cofio £30<br>• Urdd – noddi cystadleuaeth stepio yn enw CC Llan £200<br>• Emma Young – siocledi Sion Corn £238<br>• Eric Davies - Giat y Fynwent £1300<br>• Stay Safety – golau gor yrru lon Amlwch (Ad-daliad grant) £2985<br><br>**Biliau cyfredol**<br>Infois gan AT & AE Lewis am y cytundeb torri gwair Mai – Hydref 2025. Nododd y Clerc bod Sion Williams, Rheolwr wedi cyflwyno Cynllun Gwaith buddiol yn nodi'r holl doriadau. Aelodau i'w ystyried a chyflwyno unrhyw sylwadau i gyfarfod Chwefror. Cytunwyd i dalu £4715,00<br><br>**Cyfrif Cyfredol**: £7645.80<br>**Cyfrif Cadw:** £35796.31 (oddeutu £20K i Hwb LlanNi) Wedi derbyn £7935.00 taliad praesept olaf 25/26<br><br>**Cyfrifon Blynyddol 2024-25 -** dyfarniad. i law 22.12.25 ac fe gylchredwyd eisoes. Adroddiad yn nodi barn 'Qualified' ond sylwad and oedd materion yn rhoi achos i bryderu. Clerc am anfon yr Adroddiad at Alun Foulkes i ofyn am ei farn/arweiniad.<br><br>**Gosod Praesept 2026**/7 – trafodwyd eisoes Eitem 3<br><br>**Adroddiad Bioamrwyiaeth Adran 6** – adroddiad statudol wedi ei chwblhau ac angen ei chymeradwyo cyn cyflyno i UNLLAIS. Cytunwyd i ychwanegu |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | cyfeiriad at y Rhandireod. Cynnigiodd AR ei chymeradwyo yn dilyn yr ychwanegiad ac fe eiliodd EO – cytunwyd i gefnogi yn unfrydol. |
| 6 | **Materion Cynllunio** - dim i law |
| 7. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** cyflwynodd Cyng Ken Hughes y sylwadau canlynol er gwybodaeth<br>• Cynllun Gwastraff CSYM – croesawodd unrhyw sylwadau pellach<br>• Adran Tai – ffurflenni perthnasol bellah i'w cael ar lein<br>• Treth y Cyngor – bydd ymgynghoriad mis Chwefror<br>Yn dilyn cwestiwn cadarnhaodd mai dim ond ffyrdd 'A' sy'n cael eu gritio oherwydd y gost – defnyddir unrhyw waddol i ar ffyrdd 'B'. |
| 8 | **Materion Safleoedd**<br>**Unedau Tan y Foel –** dim diweddariad gan CSYM ar y broses o werthu y llain a'r ddau gompowd. Asiant yn dal i holi.<br>**Safle'r Stesion** – twll yn y Maes Parcio – TAJ wedi gofyn i RPO am gymorth a DAW wedi ei atgoffa hefyd. Angen dilyn hyn i fyny<br>**Lawnt Fowlio –** CCTV o'r Caffi – GW/DAW i weithredu cyn 31.2.26<br>**Clwb Peldroed – bin sbwriel –** RY i holi ymhellach – ymlaen i Chwefror.<br>**Mynwentydd** – trafodwyd argymhellion Is Bwyllgor Mynwentydd ac yn arbennig ffioedd y Fynwent Gyhoeddus. Cytunwyd i:-<br>• Codi ffioedd – Prynu Bedd - £120; Ail agor bedd - £80; Gosod Carreg Fedd - £80; Claddu Llwch - £80<br>• Prynu bedd heb gyswllt i'r ardal - £240<br>• Parhau i werthu o flaen llaw<br>• Adolygu Ionawr 2027<br>Hyn oll yn weithredol o 1 Ebrill 2026<br>**Cae Gofeb –** dim i law<br>**Rhandiroedd** – trafodwyd eisoes.<br>**Cae Astro** – newyddion da – grant o £32K wedi ei dderbyn trwy gefnogaeth Mon Actif. Clerc i drafod camau nesaf gyda'r Swyddog Barry Edwards. |
| 9. | **Gohebiaeth**<br>Nodwyd cynnwys yr ohebiaeth a gylchredwyd eisoes trwy ebost ers cyfarfod mis Hydref ag fel a restrwyd ar Raglen 6.11.25. |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm* | |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com